The Electoral Commission

# Cyrff a gyllidir yn gyhoeddus a'r refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol yn y DU

## Taflen ffeithiau

Yn y cyfnod yn arwain at y refferendwm ar 5 Mai 2011, mae rhai cyrff a gyllidir yn gyhoeddus penodol yn destun i gyfyngiadau ar gyhoeddi deunyddiau cyhoeddusrwydd dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Mae'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar y deunydd y gall y cyrff hyn ei gyhoeddi yng nghyswllt y refferendwm. Maent yn ymdrin â gwybodaeth gyffredinol am y refferendwm, ac annog pobl i bleidleisio, nid ymgyrchu ar gyfer canlyniad yn unig.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r cyfyngiadau, a ble y gellwch gael mwy o wybodaeth.

## Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â'r rheolau?

- Llywodraeth ganol
- Y cyrff deddfu a llywodraethau datganoledig
- Awdurdodau lleol
- Unrhyw gorff a gyllidir yn gyhoeddus yn bennaf. Gallai hyn gynnwys sefydliadau cymunedol ac elusennau.

Mae'r canlynol yn cael eu heithrio o'r rheolau:

- Y BBC
- S4C a'r
- Comisiwn Etholiadol, neu unrhyw un yn gweithredu ar ei ran. Yn y refferendwm hwn, mae'n bosib y gofynnwn i swyddogion cyfrif lleol gyhoeddi deunydd ymwybyddiaeth gyhoeddus ar ein rhan.

## Pryd mae'r rheolau'n berthnasol?

Mae'r rheolau mewn grym am y 28 diwrnod hyd at ac yn cynnwys y diwrnod pleidleisio ar 5 Mai 2011.

Golyga hyn fod y cyfyngiadau'n cychwyn ar 8 Ebrill.

## Beth mae'r rheolau'n ei gynnwys?

Mae'r rheolau'n gwahardd deunydd cyhoeddusrwydd sydd:

- Yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am y refferendwm – yn cynnwys deunydd nad yw'n cefnogi'r naill ganlyniad na'r llall
- Yn annog pobl i bleidleisio yn y refferendwm
- Yn rhoi dadleuon o balid neu yn erbyn canlyniad neilltuol
- Yn delio â materion a godwyd gan gwestiwn y refferendwm

Nid yw'r rheolau'n cynnwys:

- Rhybuddion yn y wasg
- Atebion i ymholiadau penodol am wybodaeth
- Gwybodaeth ynghylch cynnal y pleidleisio, fel dyddiad y refferendwm neu leoliad y gorsafoedd pleidleisio.

## A oes unrhyw reolau eraill y mae'n rhaid i gyrff a gyllidir yn gyhoeddus eu dilyn?

Efallai y bydd rheolau eraill yn berthnasol i gyrff a gyllidir yn gyhoeddus yng nghyswllt y refferendwm.

Er enghraifft:

- Gall sefydliadau sy'n derbyn **grantiau a gyllidir yn gyhoeddus** fod yn destun i gyfyngiadau eraill yn nhermau ac amodau eu grantiau. Dylech siarad â'ch cyllidwr.
- Dylai **elusennau** sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennol (ar gael ar eu gwefan www.charitycommission.gov.uk

Ni allwn ond cynghori ar sgôp y cyfyngiadau o dan PPERA.

## Ein manylion cyswllt

Os hoffech fwy o wybodaeth am y refferendwm, a'n rôl ni ynddo, os gwelwch yn dda ymwelwch â'n gwefan ar www.electoralcommission.org.uk/elections/upcoming-elections-and-referendums/uk/referendum

Galwch ni ar:

- Lloegr: 0207 271 0500 info@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 255 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0292 034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0289 089 4020 infonorthernireland@electoralcommission.org.uk